**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 18fed Gorffennaf, 2019 at 2.00 pm**

**PRESENT:** County Councillor S. Woodhouse (Chairman)
County Councillor S.B. Jones (Vice Chairman)

County Councillors: P. Clarke, D. Batrouni, J.Becker, D. Blakebrough, L.Brown, D. Dovey, A. Easson, R. Edwards, D. Evans, P.A. Fox, R.J.W. Greenland, R. Harris, J. Higginson, G. Howard, S. Howarth, R.John, L.Jones, P. Jones, S. Jones, P. Jordan, M.Lane, P. Murphy, P.Pavia, M. Powell, J.Pratt, R.Roden, B. Strong, J.Treharne, J.Watkins and A. Webb

**OFFICERS IN ATTENDANCE:**

| | |
|---|---|
| Matthew Phillips | Head of Law/ Monitoring Officer |
| Paul Matthews | Chief Executive |
| Nicola Perry | Senior Democracy Officer |
| Frances O'Brien | Chief Officer, Enterprise |
| Mark Howcroft | Assistant Head of Finance |
| Cath Saunders | Children and Young People Directorate |
| Sharon Randall-Smith | Head of Achievement and Attainment |

**APOLOGIES:**

County Councillors A.Davies, L.Dymock, M.Feakins, M.Groucutt, L. Guppy, D. Jones, V. Smith, F. Taylor, T.Thomas, A. Watts and K. Williams

**2. Datganiadau o Fuddiant**

Dim.

**3. Cwestiynau Cyhoeddus**

Dim.

**4. Cyhoeddiad y Cadeirydd a derbyn deisebau**

Ni chyflwynwyd unrhyw ddeisebau.

**5. Datganiad gan Aelod y Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc - Buddsoddi mewn Ysgolion yr 21ain Ganrif**

Fis diwethaf, agorwyd Ysgol Gyfun Trefynwy yn swyddogol ac mae wedi ennill sawl gwobr. Rodd y digwyddiad yn gyfle perffaith i arddangos talentau'r disgyblion, ond hefyd y manteision a ddaw o gael ysgol ragorol fodern, hyblyg a digidol. Roedd hyn yn dilyn agor Ysgol Cil-y-coed yn gynharach eleni.

Heddiw, rwyf am ddiweddaru Aelodau ar y datblygiadau sydd yn rhan o'r cam nesaf o adnewyddu ystâd ein hysgolion, gan gyfeirio yn benodol at yr opsiynau cyllido ar gyfer Band B o'r Ysgolion yr 21ain ganrif.

Ym mis Rhagfyr y llynedd, roeddwn wedi cyflwyno adroddiad er mwyn sefydlu tîm bach a fyddai'n gweithio ar y cyd ag aelodau ac uwch swyddogion er mwyn datblygu Band B.

Ein cynnig Band B yw ail-ddatblygu Ysgol Gyfun Brenin Harri'r VIII ac Ysgol Gynradd Deri View er mwyn darparu campws dysgu newydd i blant rhwng 3 a 19 mlwydd oed yn Y Fenni. Bydd yr ailddatblygiad hwn yn caniatáu trosglwyddo Ysgol Gymraeg Y Fenni o'r safle cyfredol yn Deri View, gan ganiatáu'r ysgol i ddatblygu yn ysgol dwy ffrwd.

Roedd y penderfyniad cychwynnol a wnaed gan y Cabinet yn 2017 wedi dod i'r casgliad mai'r llwybr cyllid-cyfalaf yw'r mwyaf priodol - yn y cyfnod hwn, roedd yna gyfradd ymyrraeth o 50%.

Mae Llywodraeth Cymru wedi newid y gyfradd ymyrraeth ar gyfer cynlluniau cyllido cyfalaf a refeniw (hynny yw'r Model Buddsoddi Cydfuddiannol (MIM)). Mae cyfradd ymyrraeth Llywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau sydd yn cael eu cyllido yn draddodiadol wedi newid o 50% i 65%, tra bod y gyfradd MIM wedi newid o 75% i 81%, gan roi rheswm i ni gynnal dadansoddiad o'r newydd o'r manteision posib ynghlwm wrth y MIM.

Mae swyddogion wedi bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru dros yr wythnosau diwethaf ac wedi pennu mai'r dull mwyaf priodol ar gyfer Sir Fynwy yw parhau gyda'r opsiwn cyllido-cyfalaf.

Mae'n cynnig yr hyblygrwydd mwyaf tra hefyd yn cynnal proffil cost cyffredinol is i'r awdurdod lleol. Yn sgil y cyfnod cyllidebol heriol yr ydym yn wynebu, yn enwedig gan mai ni yw'r awdurdod lleol sydd wedi ein hariannu isaf yn y wlad, roedd yr hyblygrwydd hwn yn rheswm rhy bwysig i ni,

Tra y byddai'r MIM wedi sicrhau y byddai'r ysgol yn cael ei chynnal a'i dychwelyd i'r awdurdod mewn cyflwr da ar ddiwedd y cyfnod o 25 mlynedd, byddai'r MIM yn cyfyngu ar rai o'r elfennau dylunio penodol a'r anghenion dysgu arloesol yr oeddem yn medru eu cyflwyno yng Nhil-y-coed a Threfynwy.

Mae fy natganiad heddiw yn cadarnhau eto'r penderfyniad gwleidyddol sydd wedi ei gytuno ac yn caniatáu i ni fwrw ymlaen gyda chyflymder, cywreindeb ac eglurder i mewn i Fand B.

Roedd ein Bwrdd Ysgolion yr 21ain ganrif wedi ymweld gyda'r safle ar ddydd Llun wrth i'r gwaith barhau er mwyn adnabod y lleoliad gorau ar gyfer yr ysgol newydd. Rwyf yn ddiolchgar iawn am y rôl sydd wedi ei chwarae gan benaethiaid a chadeiryddion llywodraethwyr y tair ysgol, gan y bydd eu harbenigedd yn hanfodol i lwyddiant y prosiect wrth lunio gweledigaeth yr ysgol.

Wrth i ni ddatblygu'r achos busnes llawn ar gyfer yr ysgol newydd, byddaf yn cyflwyno adroddiad i'r cyngor llawn ym mis Medi er mwyn sicrhau fod Rheolwr Ysgolion yr 21ain ganrif yn rôl barhaol a'n gwarantu cyllid y prosiect tîm a'r astudiaethau dichonoldeb gan gynnwys ymchwiliadau ar y safle ac arolygon o'r tir.

Hoffwn gyhoeddi heddiw buddsoddiad o £1 miliwn yn ein hystâd o ysgolion o ganlyniad i grant cyfalaf yr ydym wedi derbyn gan Lywodraeth Cymru ar ddiwedd blwyddyn ariannol 2018-19, ac rydym yn ddiolchgar iawn.

Mae'r buddsoddiad hwn yn cynnwys ystafell ddosbarth newydd yn Ysgol Gynradd Gilwern ac uwchraddio cyfarpar arbenigol yn ein Canolfannau Adnoddau Anghenion Arbenigol.

Rydym wedi penderfynu cyflwyno hanner miliwn o bunnoedd yn Ysgol Gyfun Cas-gwent er mwyn ail-fodelu mynedfa blaen i ddisgyblion gan gynnwys gosod ffenestri newydd, addurno'r ysgol fel bod angen, adnewyddu'r to lle y bydd angen ac ail-fodelu'r dderbynfa. Fodd bynnag, bydd angen cynllunio ac ni fydd hyn yn cael ei gwblhau dros yr haf.

Rwy'n gobeithio bod y datganiad hwn yn atgyfnerthu ein hymroddiad i sicrhau'r dechrau gorau posib mewn bywyd i bob person ifanc yn Sir Fynwy wrth i ni greu awyrgylch dysgu sy'n addas i'r unfed ganrif ar hugain i bob disgybl.

## 6. Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Archwilio 2018/19

Roedd Mr. Phillip White, Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio, wedi cyflwyno Adroddiad Blynyddol 2018/19 y Pwyllgor Archwilio. Roedd yr adroddiad yn dangos sut y mae'r Pwyllgor wedi ymgymryd â'i rôl fel sydd wedi ei ddiffinio gan y cylch gorchwyl.

Roedd yr adroddiad wedi ei eilio gan y Cynghorydd Sir Higginson, a'i dderbyn gan y Cyngor.

**MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL**

**Minutes of the meeting of Cyngor Sir held at Council Chamber - Council Chamber on Dydd Iau, 18fed Gorffennaf, 2019 at 2.00 pm**

## 7. Datganiad Cyfrifon 2018/19

Cyflwynwyd yr adroddiad i'r Cyngor er mwyn gwirfoddoli newid peilot yn y broses gymeradwyo ar gyfer y Datganiad o Gyfrifon, yn cydnabod nad yw'r terfynau amser cyhoeddi cynt yn cydweddu â'r amserlen o gyfarfodydd.

Rhoddwyd copi i'r Cyngor o'r datganiad cyfrifon drafft ar gyfer yr Awdurdod ar gyfer 2018/19, fel bod modd i aelodau ei ystyried yn ystod y broses archwilio.

Rhoddwyd sicrwydd i'r Aelodau nad oedd y newid yn gwrthdaro gyda'r cyfansoddiad cyfredol.

Yn dilyn pleidlais, penderfynodd y Cyngor dderbyn yr argymhellion:

Dylid adolygu Datganiad o Gyfrifon drafft Cyngor Sir Fynwy, fel sydd wedi ei gyflwyno ar gyfer ei archwilio. (Atodiad 2).

Ar gyfer 2018-19, bydd y proses datganiad o gyfrifon, y gymeradwyaeth derfynol a'r datganiad o gyfrifon sydd wedi ei archwilio yn cael eu dirprwyo i'r Pwyllgor Archwilio yn hytrach nag angen cael eu cymeradwyo gan y Cyngor llawn.

## 8. Cwestiynau'r Aelodau:

### 8.1. O'r Cynghorydd Sirol R. Harris i'r Cynghorydd Sirol R. John, Aelod y Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc a MonLife

Roedd y Cynghorydd John wedi darparu'r ymateb canlynol:

Er eglurder, mae yna bedwar categori PLASC SEN

- Gwybyddol a Dysgu
- Trafferthion Cyfathrebu a Rhyngweithio
- Trafferthion Ymddygiad, Emosiynol a Chymdeithasol
- Trafferthion Synhwyraidd a Chorfforol

Mae pob un o'r categorïau yma yn cael eu rhannu yn is-gategorïau sydd yn disgrifio angen addysgol arbenigol y disgybl mewn mwy o fanylder. Er enghraifft, mae'r categori Gwybyddol a Dysgu yn meddu ar wyth is-gategori, sydd yn cynnwys Trafferthion Dysgu Penodol, Dyslecsia, Trafferthion Dysgu Cymedrol a Thrafferthion Dwys a Lluosog. Rwyf yn atodi dogfen sydd yn cynnwys disgrifiad o'r holl gategorïau.

Mae'r Tîm Statudol Anghenion Dysgu Ychwanegol yn darparu gwybodaeth reolaidd ar y nifer o blant a phobl ifanc sydd â datganiadau anghenion addysgol arbennig ar draws Sir Fynwy. Mae'r wybodaeth hon yn cael ei dadansoddi gan y categori anghenion addysgol arbennig, grŵp blwyddyn cwricwlwm cenedlaethol a rhyw. Mae yna drafodaethau cyson am unrhyw wybodaeth sydd o bosib yn destun pryder.

Mae'r Cynghorydd Harris wedi gofyn am wybodaeth benodol am ddisgyblion cynradd sydd ag anghenion addysgol arbennig yng ngogledd y sir. Mae'r wybodaeth isod yn deillio o SEN PLASC ym mis Ionawr ac yn cynnwys Cantref, Cross Ash, Deri View, Gilwern, Goytre, Kymin View, Llandogo, Llanffwyst, Llantillio Pertholey, Llanvihangel Crucorney, Osbaston, OLSM, Overmonnow, Rhaglan, Brynbuga ac Ysgol Gymraeg Y Fenni.

- Gwybyddol a Dysgu

49 Dyslecsia – DYSL
3 Dyspracsia – DYSP
5 Anhwylder Diffyg Canolbwyntio a Gorfywiogrwydd - ADHD
193 Trafferthion Dysgu Cyffredinol – GLD
75 Trafferthion Dysgu Cymedrol– MLD
11 Trafferthion Dysgu Dwys– SLD
6 Trafferthion Dysgu Dwys a Lluosog– PMLD

• Trafferthion Cyfathrebu a Rhyngweithio
146 Lleferydd, iaith a Thrafferthion Cyfathrebu - SLCD
39 Anhwylder Sbectrwm Awtistig– ASD Mae hyn yn cynnwys Asperger's Syndrome a thrafferthion cyfathrebu cymdeithasol.

• Trafferthion Ymddygiad, Emosiynol a Chymdeithasol
108 Trafferthion Ymddygiad, Emosiynol a Chymdeithasol - BESD

• Trafferthion Synhwyraidd a Chorfforol
50 Nam ar y Clyw – HI
8 Nam ar y Golwg – VI
3 Nam Amlsynhwyraidd - Bydd Disgyblion MSI gyda MSI yn meddu ar gyfuniad o drafferthion gweledol ac ar y clyw.
40 Trafferthion Corfforol a Meddygol – PMED

Roedd y Prif Swyddog ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Swyddog Anghenion Dysgu Ychwanegol Statudol wedi cwrdd â'r holl ysgolion cynradd er mwyn trafod eu poblogaeth Anghenion Dysgu Ychwanegol ac wedi mynd i'r afael ag unrhyw feysydd o bryder ym mhob un ysgol. Mae mwy o waith a hyfforddi i'w cynnal yn nhymor yr hydref a fydd yn cefnogi ysgolion yn fwy effeithiol i ddiwallu anghenion eu disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae hyn yn cynnwys adnabod ymyriadau effeithiol, arbenigol a rhaglen hyfforddi ar gyfer Cynorthwywyr Dysgu. Mae'r nifer o blant sydd wedi derbyn diagnosis o Anhwylder Sbectrwm Awtistig yn cynyddu, ac felly, mae'r gwasanaethau Anghenion Dysgu Ychwanegol a Seicoleg Addysgol wedi blaenoriaethu hyn fel maes lle y mae angen mwy o hyfforddiant a chefnogaeth wedi eu targedu.

O fis Medi 2020, bydd yr Awdurdod Lleol angen gweithredu'r anghenion statudol sydd yn cael eu hamlinellu yn Neddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a Thribiwnlysoedd Addysgol 2018, sydd yn cynnwys nifer o newidiadau, gan gynnwys Cynlluniau Datblygu Unigol, yn hytrach na datganiad o anghenion addysgol arbennig, yn cyflwyno heriau sylweddol i'r ysgolion ac awdurdodau lleol.

Nid wyf am ddweud fod y ffigyrau yma yn cynrychioli pryderon fel y cyfryw, ond maent yn amlinellu'r her o ddiwallu anghenion grŵp o ddisgyblion ysgol sydd yn cynyddu, gyda thrafferthion lleferydd, iaith a chyfathrebu ac Anhwylder Sbectrwm Awtistig ac mae'r her yn ymwneud gydag adnabod a chynorthwyo disgyblion yn gynharach yn y broses.

Mae'r data ar gyfer Anghenion Dysgu Ychwanegol yng Ngogledd y sir yn dangos cynnydd mewn anghenion ASD, lleferydd, iaith ac ymddygiad. Mae'r cyflwr olaf yn medru ymddangos fel disgyblion yn teimlo'n rhwystredig oherwydd nad ydynt wedi derbyn diagnosis. Mae SLCD yn medru dynodi ASD, ac wrth symud ymlaen, mae angen gwella asesiadau amserol a chefnogaeth ar gyfer y disgyblion hyn. Mewn llawer o achosion, mae asesiadau yn cael eu cynnal o ran iechyd ac rydym yn gweithio gyda chydweithwyr er mwyn gwella'r prosesau yma a'r amserau y mae'n cymryd.

Mae cydweithwyr cynhwysiant wedi cydnabod yr angen i gefnogi ysgolion gyda disgyblion sydd â thrafferthion ymddygiad ac wrthi yn datblygu pecyn o gefnogaeth.
Rydym wedi cwrdd gyda phob ysgol yn unigol er mwyn trafod pryderon unigol ac wedi cytuno ar y gefnogaeth ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod. Mae'r dull hwn wedi ei groesawu gan ysgolion.

Fel cwestiwn atodol, roedd y Cynghorydd Harris wedi gofyn a yw dadansoddiad manwl o'r ystadegau yn datgelu amrywiaeth ymhlith yr ysgolion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol, ac a fyddai yn briodol i ystyried y gefnogaeth broffesiynol mewn modd cymesur?

Ymatebodd y Cynghorydd John fod yna pedair canolfan adnoddau anghenion arbennig sydd yn hynod arbenigol. O ran termau data a gwahaniaethau rhwng ysgolion, mae modd cael gafael ar y data hwn er mwyn cael mwy o fanylder. Ychwanegodd y byddai'n hapus i drafod y data a'r hyn y mae'n golygu i ddisgyblion Anghenion Dysgu Ychwanegol.

**8.2. O'r Cynghorydd Sirol L. Brown i'r Cynghorydd Sirol R. John, Aelod y Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc a MonLife**

Roedd y Cynghorydd John wedi darparu'r ymateb canlynol:

Hoffem ddiolch i'r Cynghorydd Brown am ei chwestiynau ac am ymgysylltu mor ddiwyd yn nyfodol Ysgol Arbennig Mounton House. Tra bod yr ysgol wedi ei lleoli yn ei ward, mae'r Cynghorydd Brown wedi dilyn y trafodaethau yn agos ynglŷn â dyfodol yr ysgol ac wedi cyflwyno ymateb manwl a thrwyadl i'r ymgynghoriad.

Fel i chi ddweud, rydym wedi medru gwneud penderfyniad ar ddyfodol Ysgol Arbennig Mounton House yn ein cyfarfod Cabinet ar y 5ed o Fehefin 2019. Yn y cyfarfod hwn, roeddwn wedi esbonio nad oeddem wedi derbyn ymateb gan nifer o fudd-ddeiliaid allweddol erbyn diwedd yr ymgynghoriad ar y 29ain o Ebrill, gan gynnwys awdurdodau cymdogol ac awdurdodau sydd yn gosod plant yng ngofal y sir. Roeddwn hefyd wedi derbyn cais gan Arweinydd yr Wrthblaid er mwyn cyflwyno tystiolaeth yn hwyr, gan nad oedd wedi gwneud hynny adeg yr ymgynghoriad.

Mae'r broses statudol ynglŷn â'r cynnig o gau ysgol yn un sydd wedi ei gosod o fewn Cod Trefniadaeth Ysgolion Cymru. Rhaid i ni amlinellu'r ffordd yr ydym yn symud ymlaen o fewn 26 wythnos ar ôl i'r ymgynghoriad gau, ac yn yr achos hwn, erbyn 28ain Hydref 2019.

Roeddwn wedi gofyn i swyddogion i newid yr amserlen er mwyn sicrhau bod modd ystyried ymatebion gan bartneriaid allweddol. Gan ein bod mewn cyfnod statudol, nid ydym wedi ymestyn y cyfnod ymgynghori ac nid ydym am ddechrau cyfnod newydd. Rwyf wedi datgan y byddwn yn derbyn darnau o dystiolaeth yn hwyr a bydd y rhain yn cael eu hystyried gan swyddogion ac Aelodau ac yn ymddangos yn yr adroddiad terfynol ond byddant yn cael eu nodi fel darnau hwyr o dystiolaeth.

Yn y cyfarfod cabinet ar y 5ed of Fehefin, roeddwn wedi esbonio pam fy mod wedi penderfynu oedi'r penderfyniad. Esboniais nad oeddwn yn teimlo ei bod yn deg gwneud penderfyniad yn ystod misoedd yr haf tra bod disgyblion a staff i ffwrdd, ac felly, mi wnes i ddatgan y byddem yn ystyried y mater mewn cyfarfod yng nghanol mis Medi. Bydd y cyfarfod hwn yn cael ei gynnal ar ddydd Mercher, 18fed Medi. Bydd hyn yn caniatáu cyhoeddi adroddiadau adeg term yr ysgol - rwyf yn rhagweld mai'r 10fed Medi fydd y dyddiad.

Rydym yn hysbysu'r ymgyngoreion allweddol o'r dyddiad newydd hwn i wneud penderfyniad.

Petawn ni am fwrw ymlaen gyda chau'r ysgol, roeddem hefyd wedi dynodi y byddem yn ystyried dyddiad cau o 31ain Awst 2020, nid 31ain Rhagfyr, er mwyn ceisio lleihau'r aflonyddwch sydd i'w brofi gan ddisgyblion, yn enwedig y rhai ym Mlwyddyn 11.

Fel cwestiwn atodol, gofynnodd y Cynghorydd Brown beth fydd dyddiad yr adroddiad crynhoi yr ymgynghoriad. Wrth ymateb, dywedwyd y byddai'r adroddiad yn cael ei gyhoeddi ar 10fed Medi, gyda chyfarfod o'r Cabinet ar 18fed Medi 2019.

**8.3. O'r Cynghorydd Sirol L. Brown i'r Cynghorydd Sirol R. John, Aelod y Cabinet dros Blant a Phobl Ifanc a MonLife**

Bydd yr adroddiad yn crynhoi'r ymatebion sydd yn cael eu derbyn i'r ymgynghoriad, ond yn unol ag ymgynghoriadau blaenorol, bydd copïau o'r ymatebion llawn ar gael i'r Aelodau yn y llyfrgell.

**8.4. O'r Cynghorydd Sirol J. Watkins i'r Cynghorydd Sirol J. Pratt, Aelod Cabinet dros Wasanaethau Seilwaith a Chymdogaeth**

Roedd y Cynghorydd Sir Pratt wedi ymateb fod swyddogion – yn dilyn cynnig yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Mai – wedi derbyn cyfarwyddyd i ddechrau datblygu cynllun gweithredu sydd yn amlinellu sut ydym yn bwriadu lleihau allyriadau carbon yr awdurdod. Roedd yr Aelod Cabinet wedi gobeithio cyflwyno hyn i Bwyllgor Dethol Cymunedau Cryf ym mis Medi ac i'r Cyngor yn Hydref er mwyn sicrhau bod yr holl Aelodau yn cael cyfle i ddadlau a chymeradwyo'r gweithgareddau a fydd yn helpu cyrraedd yr amcan polisi hwn.

Er mwyn lleihau ein hymyriadau, rydym angen deall beth ydynt ar hyn o bryd. Mae allyriadau ar gyfer y Sir gyfan wedi gostwng o tua 900,000 tunnell y flwyddyn yn 2005 i tua 650,000 tunnell y flwyddyn yn 2016. Mae hyn yn gyson gyda thueddiadau cenedlaethol gan fod mwy o ynni adnewyddadwy yn cael ei greu a'r defnydd o lo yn lleihau. Ar y raddfa hon, byddai'n cymryd mwy na 30 mlynedd er mwyn sicrhau'r math o newid yr ydym am weld.

Mae 51% o'r allyriadau yn dod o drafnidiaeth, yn adlewyrchu natur wledig y Sir. Mae 24% yn dod o allyriadau domestig, a 25% o allyriadau diwydiannol a masnachol.

Wrth edrych yn fwy penodol ar ein mudiad, rydym yn rhyddhau tua 8700 o dunelli o garbon y flwyddyn o asedau statig fel adeiladau a goleuadau ar y stryd a 3000 o dunelli o gerbydau a ddefnyddir gan swyddogion ac Aelodau fel rhan o'u gwaith.

Ar 19eg Mehefin, roedd swyddogion wedi cynnal gweithdy er mwyn dechrau ystyried sut ydym yn bwriadu ymateb i'r Argyfwng Hinsawdd. Roeddynt wedi ystyried beth sydd ar waith er mwyn lleihau allyriadau megis ffermydd solar, gosod pwyntiau trydanu ar gyfer cerbydau electronig a golau stryd LED.

Roedd swyddogion wedi dechrau adnabod ystod eang o weithredoedd yn ystyried trafnidiaeth, ynni, gwastraff a chaffael, defnydd tir a seilwaith gwyrdd. Rhoddwyd ystyriaeth i sgil-effaith carbon y gweithgareddau gwahanol yma, amcangyfrifon o'r costau cyllidol ac amserlenni.

Mae pedwar gweithdy gwahanol wedi ei gynnal er mwyn parhau gyda'r broses o flaenoriaethu pa weithredoedd a fydd yn ffurfio rhan o'r cynllun gweithredu, a byddwn yn gweithio ar hyn mewn mwy o fanylder.

Rydym wir yn gwerthfawrogi brwdfrydedd, egni ac arbenigedd trigolion Sir Fynwy sydd yn cyfrannu at fynd i'r afael â'r Argyfwng Hinsawdd. Yn unol gyda'r Ddeddf Cenedlaethau'r Dyfodol a Lles, rydym am gydweithio gyda chymunedau a phartneriaid er mwyn gweithio gyda'n gilydd

ar y cynllun gweithredu. Bydd cyfarfod o'r Hyrwyddwyr Hinsawdd Cymunedol yn cael ei gynnal ar 31ain Gorffennaf er mwyn dechrau'r broses.

Mae polisïau wedi eu diwygio yn sgil yr Argyfwng Hinsawdd. Mae papur Materion, Gweledigaeth ac Amcanion ar gyfer y Cynllun Datblygu Leol wedi ei gymeradwyo. Bydd yr amcanion Cynllun Corfforaethol yn cael ei adolygu yng nghanol y term, a bydd yn cynnwys mwy o fanylion am yr Argyfwng Hinsawdd.

Hoffem ddiolch o galon i'r swyddogion am eu hymroddiad at yr argyfwng newid hinsawdd, er y pwysau gwaith arall. Nid yw'r Cyngor wedi ystyried y pethau yma yn ysgafn a rhoddwyd sicrwydd y byddai'r ymroddiad a natur fyrs y sylw sydd wedi ei roi yn cael eu cynnal yn yr wythnosau, misoedd a blynyddoedd sydd i ddod.

Fel cwestiwn atodol, roedd y Cynghorydd Watkins wedi datgan ei bod yn falch o Sir Fynwy am fuddsoddi mewn fferm solar, a gofynnodd a yw'r Cyngor yn buddsoddi mewn ynni adnewyddadwy?

Mewn ymateb, esboniodd yr Aelod Cabinet fod 99% o'n adeiladau yn defnyddio ynni adnewyddadwy. Ychwanegodd ein bod yn ystyried fferm ychwanegol, ac fel rhan o'r broses dros yr haf, byddwn yn ystyried pa fuddsoddiadau eraill y mae modd eu gwneud.

**9. <u>I gadarnhau cofnodion cyfarfodydd y Cyngor Sir ar 20fed Mehefin 2019</u>**

Roedd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 20fed Mehefin wedi eu cadarnhau a'u llofnodi gan y Cyngor.

**10. <u>I nodi dyddiad y cyfarfod nesaf fel Dydd Iau 19eg Medi 2019 am 2pm</u>**

Wedi'i nodi.

**The meeting ended at 2.40 pm**